Beth ydw i'n gwneud gyda fy nyddlyfr?

Defnyddir eich dyddlyfr ar-lein i gynnal eich cais am Gredyd Cynhwysol.

Yn eich dyddlyfr, byddwch yn:

- Cwblhau l'w wneud
- Cofnodi eich chwiliad swydd
- Cadw mewn cysylltiad â'ch anogwr gwaith
- Rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau



Ble mae o?

www.gov.uk/sign-in-universal-credit

Gallwch ddod o hyd i'r dudalen trwy ymweld â Google a theipio UC login. Ewch i'r canlyniad chwiliad cyntaf ac yna gallwch chi fewngofnodi.

Beth fydd ei angen arnoch chi	Lle rydych chi'n dod o hyd iddo
Enw defnyddiwr a Chyfrinair	Bydd eich anogwr gwaith yn rhoi'r manylion hyn i chi yn ystod eich apwyntiad cyntaf.
Rhif Diogelu Personol	Hefyd bydd eich anogwr gwaith yn rhoi rhif 16 digid i chi. Cadwch hwn gyda chi bob amser rhag ofn i chi gael trafferth cael at eich cyfrif.
Cwestiwn diogelu	Byddwch hefyd yn gosod i fyny ateb i gwestiwn cyfrinachol. Dylai hwn fod yn rhywbeth hawdd i chi ei gofio ond yn anodd i bobl eraill ei ddyfalu. E.e. Enw eich anifail anwes cyntaf.

I'w Gwneud

Mewngofnodwch i'ch cyfrif Credyd Cynhwysol mor aml ag sy'n bosib oherwydd bydd eich Anogwr Gwaith yn gadael tasgau a elwir I'w Gwneud ar eich cyfrif.

Enghreifftiau o dasgau I'w Gwneud:

- Derbyn eich ymrwymiadau
- Mynychu eich adolygiad chwiliad gwaith
- Paratoi at eich cyfarfod ymrwymiadau



Tip da: Mewngofnodwch i'ch cyfrif Credyd Cynhwysol mor aml ag sy'n bosib.

Cofnodi eich chwiliad swydd

Os oes disgwyl i chi chwilio am swydd bydd angen i chi gofnodi eich gweithgaredd cysylltiedig â gwaith.

Enghreifftiau o weithgaredd cysylltiedig â gwaith:

- Ysgrifennu CV, neu dreulio amser yn cymhwyso CV at anghenion rôl benodol swydd
- Cwblhau ffurflen cais am swydd
- Cysylltu â chyflogwyr yn dilyn i fyny ar geisiadau
- Teithio at gyfweliadau swyddi



Dysgwch mwy ynglŷn â cheisio am swyddi yma:
cymru.learnmyway.com/subjects/finding-job-online

Cadw mewn cysylltiad

Byddwch yn defnyddio'ch dyddlyfr Credyd Cynhwysol i gadw mewn cysylltiad â'ch Anogwr Gwaith.



Tip da: Danfonwch neges yn syth at eich anogwr gwaith trwy ddewis 'A message to my work coach'.

Rhoi gwybod am newid mewn amgylchiadau

Os oes newidiadau yn eich bywyd neu waith bydd angen i chi rhoi gwybod am hyn ar eich cyfrif Credyd Cynhwysol.

Enghreifftiau o newid mewn amgylchiadau:

- Rydych yn cael swydd newydd neu mwy o oriau yn eich gwaith.
- Rydych yn rhy sâl i weithio nac i gyfarfod a'ch anogwr gwaith.
- Rydych chi'n symud tŷ neu rydych yn symud i mewn gyda'ch partner.

Tip da: Os ydych yn rhoi gwybod am newid nad oes opsiwn ar-lein ar ei chyfer , rhoi gwybod trwy eich dyddlyfr Credyd Cynhwysol.

Eich cyfriflen

Mae eich cyfriflen ar-lein yn arf i'ch cynorthwyo dilyn llwybr eich taliadau Credyd Cynhwysol.

Byddwch yn gallu gweld y taliadau rydych wedi eu derbyn yn barod. Bydd yn dangos pryd y byddwch yn derbyn eich taliad nesaf a sut mae o wedi ei chyfrifo.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynglŷn â'ch cyfriflen ar-lein, yna danfonwch neges i'ch Anogwr Gwaith. Bydd eich Anogwr Gwaith yn gallu egluro.



Statement

Your payment this month is

£556

This will be paid by 8pm on 22 February 2017

How we calculate your payment

Your payment is based on what you've told us and covers the period between

16 JAN and 15 FEB

It is important to tell Universal Credit immediately about any changes in your circumstances that could affect your Universal Credit payments.

Report a change in my circumstances

Standard allowance £317.82

You receive a standard Universal Credit allowance each month

Housing £420.00

You said that your rent is £400.00 per month, and you pay £20.00 in